**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**MESUR LLYWODRAETH LEOL DRAFFT**

## Diben

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar hynt y gwaith mewn perthynas â'r Mesur Llywodraeth Leol drafft ac ar gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru yn y Mesur.

**Argymhelliad**

2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol.

**Crynodeb**

3. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y Mesur Llywodraeth Leol nesaf i alluogi'r Cynulliad i lunio atebion sy'n berthnasol i anghenion ac amgylchiadau arbennig Cymru.

**Cefndir**

4. Rwyf eisoes wedi rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar fanylion yr ymarfer ymgynghori ar y mesur drafft a gynhaliwyd yn ystod yr haf ac a waned yng nghyd-destun Lloegr yn unig. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys manylion y ceisiadau a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Lywodraeth y DU mewn perthynas â chynnwys deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru yn y mesur terfynol. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'n cais i'r eitemau hynny yn y Mesur sy'n gyffredin i Loegr a Chymru, lle bo'r pwerau hynny'n cael eu dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr, gael eu dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

**Materion i'w Hystyried**

5. Daeth proses ymgynghori Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i ben ar 23 Awst ac mae Llywodraeth y DU yn awr yn ystyried p'un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r Mesur drafft yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.
6. Er mwyn sicrhau bod awdurdodau Cymru'n ymwybodol o'r Mesur a'u bod yn cael cyfle i fynegi'u safbwyntiau yng nghyd-destun Cymru, rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod

lleol i dynnu'u sylw at y Mesur ac wedi gofyn am farn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ein cynigion. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol mai'r penderfyniad a wnaed o ganlyniad i hyn oedd i beidio â pharhau gyda'r broses arfaethedig o gyfuno'r Grant Cymorth Refeniw a'r Trethi Annomestig Cenedlaethol i un ffrwd ariannu sengl.

7. Mae'r trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn parhau mewn perthynas â chynigion Cymru ac ni cheir gwybod y canlyniad terfynol tan ddiwedd Hydref. Mae'n bosibl mai dyma pryd y penderfynir yn derfynol ar ffurf y Mesur yn ei gyfanrwydd a ph'un a fydd y Mesur yn cael ei gyflwyno yn y sesiwn nesaf o'r Senedd.

**Cydymffurfio**

8. Mae'r papur hwn wedi'i lunio yn unol ag a40 Deddf Llywodraeth Cymru sy'n galluogi'r Cynulliad i wneud unrhyw beth sy'n hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy'n atodol i hynny mewn perthynas â llywodraeth leol. Mae'r pwer hwn wedi'i ddirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i swyddogion. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Swyddog Cyswllt:** Richard Shearer

Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol